Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn

Datganiad Ysgrifenedig gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr lleol, aelodau o Gynghorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol, gan gynnwys materion cynllunio, ac yn cyfrannau at y gwaith o baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

Sylw 784

1. Pa ran o'r Cynllun yr ystyrir yn anniogel ?

Polisi TWR 5 – Safleoedd Carafannau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen dros dro

2. Pa brofion cadernid sydd ddim yn cael eu cwrdd ?

Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ardal ddaearyddol wedi ei dynodi yn statuol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Nodir yn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, 2016) mai prif reswm dynodi ardal fel AHNE yw cynnal a gwella eu harddwch naturiol. Nodir fod yr AHNE o'r un statws â'r Parciau Cenedlaethol o ran harddwch gweledol ac y dylent gael y warchodaeth uchaf rhag datblygiadau anaddas. Hefyd nodir y dylai polisïau cynllunio roddi pwyslais mawr ar gynnal a gwella yr harddwch naturiol, bywyd gwyllt a treftadaeth diwylliannol.

Mae'n wybyddus fod cynydd wedi bod mewn safleoedd a niferoedd unedau Carafannau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen yn Llŷn. Mae gwybodaeth sydd ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd (Dilyn a Darganfod) yn cadarnhau fod nifer helaeth o geisiadau am y math yma o ddatblygiadau wedi eu caniatáu yn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae rhai rhannau o Lŷn ac Ynys Môn dan gryn bwysedd gan safleoedd carafannau teithiol ac mae'r datblygiadau hyn wedi cael effaith negyddol ar harddwch y tirlun mewn rhai mannau. Rhoddir sylw i hyn fel un o'r pynciau llosg yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

Yn ogystal, mae tueddiad diweddar i adael carafanau teithiol ar safle drwy gydol y tymor (Mawrth – Medi) gan gynyddu yr ardrawiad gweledol.

3. Pam mae'n methu ?

Prif sail dynodi rhan o Lŷn yn AHNE yn ôl yn 1957 oedd yr arfordir amrywiol a diddorol a'r tirlun hardd. Mae oddeutu chwarter y penrhyn, cyfanswm o 15,500 hectar, yn yr ardal ddynodedig. Mae'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond mae hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys Foel Gron a Garn Fadryn.

Ni chredir fod cydnabyddiaeth wedi ei roi i amgylchedd a harddwch gweledol arbennig yr AHNE, a'r ardal gerllaw, yn y polisi. Ni chredir felly fod y polisi yn cydymffurfio gyda Polisi Cynllunio Cymru.

Nid yw'n ymddangos fod dadansoddiad llawn o gynydd mewn safleoedd ac unedau wedi ei wneud ac effaith y datblygiadau hyn ar yr amgylchedd - yn arbennig felly oddi mewn a gerllaw yr AHNE ac Ardal Tirwedd Arbennig.

4. Sut medrir gwneud y cynllun yn gadarn ?

Credir y dylai'r polisi fod yn fwy caeth o ran datblygiadau Carafannau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen oddi mewn, a gerllaw, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.